

Meddyginiaethau i helpu â'r cof a'r meddwl

Er nad oes meddyginiaethau ar hyn o bryd sy'n atal, arafu nac yn gwrthdroi dementia, mae rhai yn gallu helpu pobl â'u cof a meddwl.

Pa feddyginiaethau sy'n gallu helpu â dementia?

Mae pedair meddyginiaeth yn trin rhai mathau o dementia:

- donepezil
- rivastigmine
- galantamine
- memantine.

Pwy mae'r meddyginiaethau hyn yn eu helpu?

Mae'r meddyginiaethau hyn yn cael eu cynnig i bobl â Alzheimer's disease, dementia with Lewy bodies, or Parkinson's disease dementia (chlefyd Alzheimer, dementia â chorffynnau Lewy, neu dementia clefyd Parkinson), yn ogystal â mixed dementia (dementia cymysg) yn cynnwys unrhyw un o'r mathau hyn. Nid yw'r meddyginiaethau yn gweithio i bawb.

I rai pobl, gallant wella gorbryder, y cof a chanolbwytio. Mae hyn yn gallu helpu â bywyd pob dydd. Os yw'r feddyginiaeth yn helpu, gallai'r unigolyn deimlo cymhelliad cryfach. Mae ei gof a'i feddwl hefyd yn debygol o wella ar ôl ychydig wythnosau.

Nid yw'r meddyginiaethau hyn yn helpu'r cof a'r meddwl mewn pobl â frontotemporal dementia (dementia blaenarlesiol) na vascular dementia (dementia fasgwlaidd). Gallai meddyg roi meddyginiaethau i unigolyn â'r cyflyrau hyn i helpu yn hytrach â'i iechyd cyffredinol. Ar gyfer frontotemporal dementia (dementia blaenarlesiol), gallai hynny fod yn feddyginiaethau ar gyfer iselder. Mewn vascular dementia (ddementia fasgwlaidd), gallai hynny fod yn feddyginiaethau ar gyfer pwysau gwaed uchel neu broblemau calon.

Bydd y meddyg yn gwirio sut mae'r meddyginiaethau'n gweithio bob blwyddyn mewn adolygiad blynyddol.

Cymryd ac atal meddyginiaethau

Mae rhai pethau sy'n gallu gwneud cymryd meddyginiaeth yn gywir yn haws. Mae'r rhain yn cynnwys rhestrau gwirio, nodiadau atgoffa a blychau tabledi. Siaradwch â'ch meddyg os ydych yn ansicr am sut neu bryd i gymryd eich meddyginiaeth.

Mae'n bwysig peidio â rhoi'r gorau i gymryd meddyginiaeth heb siarad â'ch meddyg yn gyntaf, gan y gall hyn wneud dementia yn waeth. Mae hyn yn cynnwys os ydych chi'n ymprydio am resymau crefyddol neu ysbrydol.

Oes gan y meddyginiaethau hyn sgil-ffeithiau?

Bydd nifer fach o bobl sy'n cymryd y feddyginiaeth yn profi sgil-ffeithiau. Siaradwch â'ch meddyg am sgil-ffeithiau a ffyrdd o'u lleihau. Os yw'r feddyginiaeth rydych yn ei chymryd yn achosi sgil-ffeithiau, gallai'r meddyg ofyn i chi roi cynnig ar un arall.



Nid meddyginiaethau yw unig ffynhonnell gobaith pobl sydd â dementia. Gweler **HS3WEL Triniaethau gan therapyddion a gweithwyr profesiynol eraill** a **HS5WEL Cymorth i bobl â dementia – alzheimers.org.uk/get-support/information-in-your-language**



Rydym yma i chi. Os ydych yn bryderus am dementia, rhowch alwad i ni ar **03300 947 400**.



I ganfod cymorth wyneb yn wyneb ac ar-lein yn eich ardal, ewch i **alzheimers.org.uk/dementiadirectory** Mae hyn yn cynnwys grwpiau diwylliannol a chrefyddol.